OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2873 (Cy. 273)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *5 Tachwedd 2013*

Yn dod i rym *18 Tachwedd 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) a Chefnffordd Caer-Bangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd, a chyfyngu arno, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Tachwedd 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 18 Tachwedd 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o Gefnffyrdd yr A494 a'r A55 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Tachwedd 2013.

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr

i) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â Chefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant, Sir y Fflint.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain â Chefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 34, Cyfnewidfa Ewloe yr A55/A494, Sir y Fflint, sy'n cysylltu Cefnffordd yr A494 â Chefnffordd yr A55.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 sy'n ymestyn tua'r gorllewin o'r trwyniad ar ddiwedd y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyfnewidfa Plough Lane at bwynt 199 o fetrau i'r gorllewin o'r slipffordd rhwng yr A494 a’r A55 tua’r dwyrain yn Ewloe.